**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**CANGEN WEITHREDOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD I GANGEN CYMRU O GYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD AM Y CYFNOD 1 Ionawr 2011 – 30 Mehefin 2012

## Cefndir

Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unfrydol ar gynnig a lofnodwyd gan bedwar arweinydd y pleidiau, ar 7 Gorffennaf 1999, i wneud cais am gael ein derbyn i fod yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA). Croesawyd Cymru'n ffurfiol fel aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Trinidad ar 19 Medi1999.

Bydd Pwyllgor Gweithredol y Gangen yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor, ar y sail bod croeso hefyd i unrhyw aelodau eraill o'r Gangen sydd am fod yn bresennol, os bydd modd iddynt ein hysbysu ymlaen llaw.

Nodyn:
Oherwydd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru y llynedd, a'r penderfyniad i newid amser cyfarfod cyffredinol blynyddol y Gangen, mae'r adroddiad hwn yn trafod cyfnod o 18 mis, sy'n hwy nag arfer, a rhai gweithgareddau'r Gangen flaenorol, tuag at ddiwedd tymor y Trydydd Cynulliad.

**Strwythur y Gangen**
Mae pob un o Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gangen Cymru o Bwyllgor Seneddol y Gymanwlad yn awtomatig.

**Pwyllgor Gweithredol y Gangen**
*Llywydd:* Rosemary Butler AC
*Is-lywydd:* David Melding AC

*Cadeirydd:* Joyce Watson AC

*Is-gadeiryddion:*
Simon Thomas AC
Mohammad Asghar AC
William Powell AC

*Ysgrifennydd:* Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*Ysgrifennydd Dros Dro:*
Al Davies, Rheolwr Cysylltiadau Rhyngwladol

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Mae'r gangen wedi cadw ei safle fel aelod gweithgar o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Anfonodd gynrychiolwyr i gynadleddau a seminarau yn y DU a thramor, a chroesawodd amrywiaeth o ymwelwyr o'r Gymanwlad drwyddi draw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fis Mehefin y llynedd, cefais fy ethol fel Cadeirydd newydd ein Cangen o'r Gymdeithas. Dysgais lawer dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yn unig am waith hanesyddol a dylanwad ein Cangen, ond hefyd am y Gymdeithas yn ehangach a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer meithrin cysylltiadau da drwy fod yn aelodau o'r CPA, gan gynnwys cael llwyfan i arddangos Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel deddfwrfa ryngwladol, fach, ond flaengar ac arloesol.

Roedd y diddordeb yng ngwaith a gweithgareddau ein Cangen gan yr Aelodau, ac yn arbennig gan yr Aelodau hynny a etholwyd i'r Cynulliad am y tro cyntaf y llynedd, yn galonogol i mi.

Mae ein haelodaeth hefyd yn galluogi ein cangen i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru ac rwy'n ymfalchïo ym mhenderfyniad y gangen i weithio'n fwy strategol â thîm Allgymorth a thîm Addysg y Cynulliad dros y flwyddyn ddiwethaf i ddod o hyd i bobl ifanc drwy eu rhwydwaith o gysylltiadau, a'u rhanddeiliaid. Arweiniodd hyn at fod gan Gangen Cymru o'r CPA gynrychiolaeth frwdfrydig iawn mewn digwyddiadau fel Diwrnod y Gymanwlad a'r Senedd Ieuenctid yn San Steffan, ac yn ogystal â hyn, cymerwyd rhan yn ein dadl y Gymanwlad lwyddiannus iawn ninnau yn Siambr Hywel.

Mae'r Gangen hefyd wedi parhau â'i diddordeb a'i chyfranogiad yn y drafodaeth, i ddylanwadu'n gadarnhaol ar lywodraethu Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ac roeddem yn falch o gefnogi Syr Alan Haselhurst AS pan gafodd ei ethol i swydd Cadeirydd y Gymdeithas, ym mis Gorffennaf y llynedd. Daeth Syr Alan i ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth eleni, a chadarnhaodd ei ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau bod y Gymdeithas yn dryloyw a chyfrifol wrth iddi ofalu am fuddiannau ac anghenion ei haelodau a pharhau i fod yn addas i'w diben.

Cynhaliodd Pwyllgor Gweithredol Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad naw o gyfarfodydd ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. **Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn, ac adroddiadau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Gangen yn y cyfnod dan sylw, ar gael yn ddwyieithog ar dudalennau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae croeso i unrhyw adborth sydd gennych. Mae modd gweld adroddiadau'r Gangen ar y wefan drwy glicio yma**

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelodau am eu diddordeb yn y Gangen, ac unwaith eto, hoffwn annog mwy fyth o gymryd rhan yn ein gwaith a'r cyfleoedd a gynigir i ni o fod yn aelodau o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

***Joyce Watson AC.***
*Cadeirydd, Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad*

**GWEITHGAREDDAU A GYNHALIWYD YN YSTOD CYFNOD YR ADRODDIAD HWN:**

**Cyfarfodydd Gweithgor Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a'r Pwyllgor Gweithredol – Yukon, Canada** (mis Chwefror 2011)

Roedd Janet Ryder AC, cyn Gadeirydd y Gangen, yn cynrychioli Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIM) yng nghyfarfodydd Gweithgor y CPA ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol.

**Diwrnod y Gymanwlad 2011** (mis Mawrth)

Cynhaliwyd derbyniad min nos, a oedd yn canolbwyntio ar y thema **"Menywod fel Asiantau ar gyfer Newid",** yn y Senedd, i ddathlu Diwrnod y Gymanwlad 2011. Cangen Cymru o'r CPA oedd noddwyr y digwyddiad ac fe'i trefnwyd ar y cyd â Chyngor Caerdydd i gyd-fynd â'r gynhadledd nodedig, **Cynhadledd Fforwm Llywodraeth Leol y Gymanwlad** (CLGF), a gynhaliwyd gan Ddinas Caerdydd.

Cynrychiolwyd y Gangen yn nathliadau swyddogol Diwrnod y Gymanwlad yn San Steffan gan ddau o bobl ifanc, Bradley Morgan a Jade Mills, o'r "Ddraig Ffynci".

**Ymweliad gan gynrychiolwyr o Senedd Canada** (mis Mawrth 2011). Croesawodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddiprwyaeth ffederal a oedd yn cynrychioli dau Dŷ Senedd Canada ar gyfer eu hymweliad cyntaf â Chymru fel rhan o ymweliad Cymdeithas Rhyngseneddol Canada a'r DU. Roedd yr ymweliad yn rhoi cyfle i'r ddwy ddeddfwrfa ddysgu gan y naill a'r llall, a chyfnewid arferion gorau mewn meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, fel cyfranogi gan ddinasyddion, e-ddemocratiaeth a gweithio'n ddwyieithog. Cyfarfu Cadeirydd Cangen y CPA ac aelodau'r Gangen Weithredol â'r ddirprwyaeth hefyd, i drafod materion sy'n gysylltiedig â'r CPA.

**Adroddiad**

http://www.youtube.com/watch?v=JdOZUl7Dphg&feature=plcp

(Cyfweliad â'r Wir Anrhydeddus Dr Carolyn Bennett AS MD)

**57fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad** (CPC), **Llundain**
**Bu Joyce Watson AC, Cadeirydd y Gangen** yn ymweld â chynhadledd Ryngwladol Flynyddol y CPA fel cynrychiolydd Cangen Cymru, ynghyd â **Mohammad Asghar AC** a oedd yn bresennol i arsylwi'n swyddogol

Fel rhan o'r gynhadledd, aeth Joyce Watson i'r cyfarfod, Seneddwyr sy'n Ferched yn y Gymanwlad, a bu'r ddau Aelod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir.

**Adroddiad**

**4ydd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad** (mis Medi 2011)
Gweithiodd y Gangen â Gwasanaeth Allgymorth y Cynulliad i ddewis dau berson ifanc, **Aled Jones a Steffan Evans**, drwy **Fforwm y Ffermwyr Ieuainc,** i gymryd rhan yn y Senedd Ieuenctid; yr uchafbwynt i'r ddadl oedd gweld cyfoedion o'r Gymanwlad drwyddi draw yn Nhŷ'r Arglwyddi yn trafod y Newid yn yr Hinsawdd.

**Adroddiad**

**Ymweliad â Senedd Talaith y Western Cape, De Affrica**
(mis Hydref 2011)
Ymwelodd **Darren Millar AM** â Senedd Talaith y Western Cape, De Affrica a chynhaliwyd cyfarfodydd â grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd fel rhan o'r ymweliad astudio hon, o dan Gynllun Nawdd Cangen Cymru o'r CPA.

**Adroddiad**

**9fed Seminar Seneddol Canada, Ottawa** (mis Hydref 2011)
**Dewiswyd William Powell AC** i gynrychioli'r Gangen yn y seminar hon, a oedd wedi'i hanelu at aelodau newydd neu aelodau a etholwyd yn ddiweddar, a thema benodol y seminar oedd: **"Cryfhau democratiaeth a rôl seneddwyr yng nghyd-destun problemau a dulliau o'u datrys."**

**Adroddiad**

**Côr Plant Destiny Africa, Kampala, Uganda** (mis Tachwedd 2011)
Roedd y Pierhead dan ei sang i groesawu_Côr Plant Destiny Africa, Kampala, Uganda a oedd wedi dychwelyd i Gymru ar gyfer digwyddiad dan nawdd **Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad a Llywydd y Gangen.**

Cafodd y plant hefyd gyfle i weld y Cynulliad wrth ei waith yn y Senedd ac i gymryd rhan mewn sesiwn benodol â'n gwasanaeth Addysg i ddysgu am ddemocratiaeth yng Nghymru, am hawliau plant a phwysigrwydd cael cyfle i leisio ein barn er mwyn creu newidiadau cadarnhaol.

http://www.youtube.com/watch?v=ddZmu9iQ3hw&feature=plcp (fideo)

http://www.flickr.com/photos/nationalassemblyforwales/sets/72157627978012549/ (lluniau)

**Diwrnod y Gymanwlad 2012** (Mawrth)
Cynrychiolwyd y gangen yn nathliadau swyddogol Diwrnod y Gymanwlad yn San Steffan eleni gan ddau o bobl ifanc, **Hannah Kirkby a Jacob Ellis**.

**Adroddiad**.

Hefyd cynhaliwyd dadl ryngwladol gan Gangen Cymru ar gyfer ieuenctid, ar thema'r Gymanwlad eleni, sef "***Cysylltu Diwylliannau***". Roedd y ddadl yn cynnwys Cymry ifanc a phobl ifanc ledled y byd a oedd yn cynrychioli dros 30 o wledydd.

**Adroddiad a Lluniau y Digwyddiad**

**42ain Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR) Caeredin, yr Alban** (mis Mehefin).
Roedd seneddwyr yn cynrychioli pob un o'r 13 Cangen o ranbarth yr **Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir yn bresennol yn y gynhadledd yng Nghaeredin**. Arweiniwyd cynrychiolaeth o gangen Cymru o'r CPA gan **Joyce Watson AC** Cadeirydd y gangen ac roedd yn cynnwys **Simon Thomas AC** a **Byron Davies AC**. Roedd cyfarfod llawn a sesiynau gweithdy'r gynhadledd yn canolbwyntio ar y thema: "**Sicrhau bod y Senedd yn Berthnasol**".

Bydd adroddiad llawn ar gael maes o law ar wefan y Gangen.

**Ymwelwyr o'r Gymanwlad â'r Senedd.**
Mae'r Gangen wedi cynorthwyo i ddatblygu rhaglenni ar gyfer nifer o ymwelwyr rhyngwladol â'r Cynulliad ac ymhlith yr ymwelwyr roedd Uchel Gomisiynwyr a chynrychiolwyr o wledydd, gan gynnwys **Canada, Lesotho, Uganda, Singapore, India, Bangladesh** ac **Awstralia**.

**<u>Edrych i'r dyfodol:</u>**
**Rebecca Evans AC** fydd yn cynrychioli'r Gangen yng **Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Sri Lanka** ym mis Medi. Mae'r Gangen hefyd yn gobeithio y bydd modd anfon cynrychiolwyr i'r **Gynhadledd Seneddol Ryngwladol** (IPC) ar **Rywedd** ym mis Tachwedd ac i bumed **Senedd Ieuenctid y Gymanwlad** ym mis Rhagfyr. Ac i edrych ymlaen ymhellach eto, mae'r **Ynysoedd Falkland** wedi cyhoeddi y byddant yn cynnal **Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR) 2013,** fis Chwefror y flwyddyn nesaf, a bydd gwahoddiad i gangen Cymru o'r CPA i gymryd rhan.

**<u>Cynllun Nawdd y Gangen</u>** (parhaus).
Atgoffir yr Aelodau am y cynllun hwn, ac fe'u hanogir i chwilio am gyfleoedd i wneud cais am gymorth ar gyfer ymweliadau â Seneddau a Chynulliadau eraill yn y Gymanwlad ar gyfer teithiau astudio. Dylai Aelodau sydd â diddordeb yn y cyfle hwn anfon neges e-bost, yn y lle cyntaf, at Al Davies, Ysgrifennydd Dro Dro y Gangen, (al.davies@cymru.gov.uk) gydag amlinelliad byr ac achos busnes sy'n cwmpasu eu taith astudio arfaethedig.

Mehefin 2012